


Bil Awtistiaeth (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6322**
E-bost: Amy.Clifton@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Blog: SeneddYmchwil.blog

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Senedd Ymchwil

Bil Awtistiaeth (Cymru)

Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2019

Awduron:
Amy Clifton

Trosolwg o'r papur:
Mae'r papur briffio hwn yn rhoi crynodeb o Fil Awtistiaeth (Cymru). Mae'r papur briffio yn cynnwys crynodeb o brif elfennau'r Bil a'r ymateb iddo, gan gynnwys safbwynt Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.



1. Cyflwyniad

Ar 28 Mawrth 2017, llwyddodd Paul Davies AC yn y bleidlais a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 ar gyfer yr hawl i gael caniatâd i gyflwyno Bil Aelod. Ei gynnig oedd cael Bil i wneud darpariaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD) yng Nghymru, gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo eu hawliau.

Ar 14 Mehefin 2017, cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y gallai Paul Davies gyflwyno Bil o fewn 13 mis i weithredu ar yr wybodaeth a ddarparodd cyn y bleidlais.

Ar 13 Gorffennaf 2018, cyflwynwyd y Bil, a dechreuodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar broses craffu Cyfnod 1.

Ar 7 Rhagfyr 2018, cyflwynodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei **Adroddiad Cyfnod 1**. Cyflwynwyd **adroddiad** y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol y Bil ac **adroddiad** y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd ar y dyddiad hwn.

2. Prif elfennau'r Bil

Pwrpas y Bil yw sicrhau bod anghenion plant ac oedolion yng Nghymru sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn cael eu diwallu, ac amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth awtistiaeth a rhoi canllawiau i 'gyrff perthnasol' sy'n gyfrifol am ei weithredu; awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yw'r rhain yn y Bil fel y'i drafftwyd.

Mae'r Bil yn cynnwys deuddeg adran, gyda thair ohonynt yn darparu ar gyfer:

- cyhoeddi ac adolygu strategaeth awtistiaeth yn achlysurol;
- cynnwys y strategaeth; ac
- arweiniad ar weithredu'r strategaeth.

Mae adrannau eraill yn ymwneud â dyletswydd ar 'gyrff perthnasol' i gydymffurfio â'r strategaeth, trefniadau ar gyfer cyfuno asesiadau, casglu data, dyletswydd i ymgymryd ag ymgyrch ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a chyrrff perthnasol i ystyried Egwyddorion a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol y bydd y Bil yn:

1. Cyflwyno strategaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion yng Nghymru sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth, a fydd yn:
 - Hyrwyddo'r arfer gorau wrth wneud diagnosis ar gyfer ASD, ac asesu a chynllunio ar gyfer diwallu anghenion gofal;
 - Sicrhau llwybr clir a chyson i wneud diagnosis ar gyfer ASD mewn ardaloedd lleol;
 - Sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yn cymryd y camau angenrheidiol fel bod plant ac oedolion ag ASD yn cael y diagnosis a'r cymorth amserol sydd ei angen arnynt ar draws ystod o wasanaethau;
 - Cryfhau'r cymorth i deuluoedd a gofalwyr a sicrhau bod eu dymuniadau hwy, a dymuniadau pobl sydd ag ASD, yn cael eu hystyried;
 - Hyrwyddo ymchwil, arloesi a gwelliant mewn gwasanaethau ASD;
 - Sefydlu arferion i hwyluso'r gwaith o gasglu data dibynadwy a pherthnasol

am nifer y plant ac oedolion sydd ag ASD a'u hanghenion fel y gall cyrrff lleol gynllunio yn unol â hynny;

- Ei gwneud yn ofynnol bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl sydd ag ASD yn cael hyfforddiant ASD;
 - Sicrhau bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cyhoeddi gwybodaeth am y gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl sydd â chyflyrau ar y sbectrwm awtistiaeth yn eu hardaloedd; ac
2. Adolygu'r strategaeth a'r canllawiau'n rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd.
 3. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrrff perthnasol ar weithredu'r strategaeth;
 4. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd ag ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASD.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) yn amcangyfrif mai cyfanswm costau gweinyddol y Bil fydd £7,387,366. Mae hyn yn cynnwys:

- £359,756 o gostau i Lywodraeth Cymru (i ddatblygu'r strategaeth a'r arweiniad, cyhoeddi data, adolygu'r strategaeth, ac ar gyfer hyfforddiant/codi ymwybyddiaeth).
- £4,508,903 o gostau i Fyrddau Iechyd Lleol (costau staff ychwanegol i weithredu cronfeydd data, a chyflawni targed amser aros o 13 wythnos).
- £2,518,708 o 'gostau cyfle' anuniongyrchol staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant.

Crynodeb o'r Bil fesul adran

Nodir yn Adran 1 bod yn rhaid cyhoeddi strategaeth a pharhau i'w hadolygu; 'Dim mwy na 3 blynedd ar ôl ei chyhoeddi (ac ar gyfnodau ddim mwy na 3 blynedd ar wahân wedi hynny) mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gomisiynu adroddiad annibynnol ar ei gweithrediad a'i chynnydd parhaus. Mae'n rhaid diwygio'r strategaeth i adlewyrchu argymhellion o fewn 3 mis i'r cyhoeddiad.

Yn Adran 2 y Bil nodir yr hyn y mae'n rhaid i'r strategaeth awtistiaeth ei gwmpasu, gan gynnwys modelau arfer gorau ar asesu; llwybr atgyfeirio; sicrhau nad yw pobl yn cael eu hatal rhag cael mynediad at wasanaethau ar sail IQ; mynediad at gyflogaeth; ymchwil i awtistiaeth; parhad gwasanaeth yn sgil y newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn, 'hyfforddiant priodol' ar gyfer gweithwyr proffesiynol allweddol; a 'gwneud darpariaeth fel bod amrywiaeth briodol o wasanaethau i gyflawni'r strategaeth awtistiaeth ar gael yn gyson ledled Cymru'.

Mae Adran 3 yn rhoi sylw i gyfuno asesiadau (fel y rhai ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol).

Nodir yn Adran 4 bod yn rhaid i Weinidogion Cymru roi (a chyhoeddi) arweiniad i gyrff perthnasol ynghylch arfer eu swyddogaethau ar gyfer gweithredu a chyflawni'r strategaeth, dim hwyrach na 3 mis ar ôl cyhoeddi'r strategaeth. Yn Adran 4(6) nodir yr hyn y mae'n rhaid i'r arweiniad ei gwmpasu, gan gynnwys rhestr ddangosol o weithwyr proffesiynol allweddol i'w cynnwys mewn timau asesu diagnostig amlddisgyblaeth.

Mae Adran 5 yn rhoi sylw i gydymffurfio â'r strategaeth awtistiaeth ac arweiniad gan gyrff perthnasol.

Yn Adran 6 nodir bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gael, cynhyrchu a chadw data dibynadwy wedi ei ddiweddarau ar ASD a'i gyhoeddi'n flynyddol. Mae Adran 6(6) yn amlinellu manylion am y data y mae'n rhaid i gyrff y GIG ei gasglu.

Nodir yn Adran 7 bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gychwyn a chynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion pobl ag ASD ar ôl cyhoeddi'r strategaeth.

Mae Adran 8 yn rhoi sylw i ddyletswyddau i ystyried egwyddorion a Chonfensiynau perthnasol y Cenhedloedd Unedig.

Rhesymeg dros y Bil

Dywedir yn y Memorandwm Esboniadol mai swyddogaeth allweddol y Bil yw **sicrhau darpariaeth gyson a pharhaus o bob gwasanaeth ASD ledled Cymru**. Nodir yn y Memorandwm nad oes rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddarparu na diweddarau ei strategaeth awtistiaeth. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu gwreiddiol yn 2008 ac fe'i hadnewyddwyd yn 2016. Mae'n rhesymu, y tu hwnt i gyfnod Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth ar gyfer 2016-20, nid oes sicrwydd y bydd gwasanaethau awtistiaeth yn parhau i gael eu blaenoriaethu.

Mae gan Loegr a Gogledd Iwerddon ddeddfwriaeth sy'n mynnu bod eu llywodraethau yn cyhoeddi strategaeth awtistiaeth, a dywedir yn y Memorandwm, "Mae'r profiadau yno'n dangos bod angen deddfwriaeth i sicrhau na cholli'r momentwm i wella".

Mae'r Aelod mewn gofal o'r farn y byddai creu gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi strategaeth awtistiaeth yn helpu i sicrhau elfen o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd mewn gwasanaethau gofal a chymorth i bobl sydd ag ASD, ac yn sicrhau ffocws parhaus a phwrpasol ar anghenion pobl ag ASD, ni waeth beth fo'r hinsawdd ariannol neu wleidyddol.

Eglurir yn y Memorandwm, er gwaethaf cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf, bod anawsterau'n parhau i bobl mewn rhai ardaloedd gael mynediad at asesiadau diagnostig. Nodir bod 'llawer o bobl sydd ag ASD, a'u teuluoedd, nad ydynt yn cael y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o hyd, a fyddai'n eu galluogi i ymdopi â'r heriau a ddaw yn sgil ASD ac i gyflawni eu potensial'. Darperir rhagor o fanylion, gan gynnwys:

Roedd y Cynllun Gweithredu Strategol yn cydnabod yr angen am wasanaethau diagnostig gwell i blant ac oedolion sydd ag awtistiaeth. Arweiniodd mentrau codi ymwybyddiaeth at gynnydd yn y galw am ddiagnosis, ond gan ymestyn amseroedd aros am asesiad hefyd.¹

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol bod gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol, a gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen awtistiaeth, wedi nodi bylchau sy'n parhau mewn gwasanaethau, yn enwedig o ran diagnosis, y cyfnod pontio wrth ddod yn oedolyn, cymorth cyflogaeth, a mynediad at wybodaeth am wasanaethau.

¹ Llywodraeth Cymru, [Gwerthuso canlyniadau'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig: Crynodeb Gweithredol, 2016, t.2](#)

Dyweddodd Paul Davies yn y Cyfarfod Llawn:

[...]yr hyn sy'n glir yw mai'r materion a nodwyd yn y strategaeth gyntaf yn 2008 yw'r un materion sy'n parhau yn awr yn 2018: diagnosis, data, gwasanaethau cymorth, hyfforddiant, cyflogaeth, tai, iechyd meddwl - i enwi ond ychydig. Dyna beth y mae pobl yn ei ddweud wrthyf am y mater hwn - mai dyna'r un materion a gâi eu trafod bryd hynny, 10 mlynedd yn ôl, a dyna pam y mae angen deddfwriaeth sylfaenol.

Dyweddodd hefyd 'er gwaethaf y strategaeth a gyflwynwyd 10 mlynedd yn ôl, rydym yn dal i weld diffyg gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth mewn rhai rhannau o Gymru', ac y bydd y ddeddfwriaeth hon 'yn sicrhau y bydd cysondeb o ran y gwasanaethau ledled Cymru'.

Mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol (NAS) Cymru wedi ymgyrchu dros y ddeddfwriaeth ac wedi cynorthwyo'r Aelod Cyfrifol wrth ddatblygu'r Bil. Dywed NAS Cymru yn ei hymateb i'r ymgynghoriad:

10 years of the autism Action Plan hasn't achieved the necessary changes to the lives of autistic people in Wales. We believe that changes that will make a tangible difference are mandatory. Legislation is supported by our members and supporters and the overwhelming majority of the hundreds of responses to both the consultation on both the development and the draft autism bill. The Bill has therefore been shaped by autistic people who will be directly affected by it.

Safbwyntiau o ymgynghoriadau'r Aelod Cyfrifol

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol fod 'y rhan fwyaf o ymatebwyr' i ymgynghoriad yr Aelod Cyfrifol ar egwyddorion y Bil yn cytuno bod angen Bil Awtistiaeth. Roedd y gefnogaeth i gyflwyno Bil yn arbennig o gryf ymhlith defnyddwyr gwasanaethau ASD a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Nodir yn y Memorandwm bod barn glir fod angen gwella gwasanaethau i bobl ag ASD, bod y gwasanaethau hynny'n amrywio ledled Cymru, ac y byddai deddfwriaeth yn helpu i yrru gwelliant.

Nodwyd amseroedd aros hir ar gyfer diagnosis fel pryder penodol, gyda rhai ymatebwyr yn disgrifio sut roeddent wedi aros am flynyddoedd i gael diagnosis. Disgrifiwyd diagnosis a gwasanaethau i oedolion fel rhai arbennig o anodd eu cyrraedd, yn enwedig ar gyfer unigolion heb anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl arall yr un pryd. Roedd barn glir hefyd fod y gwahaniaethau mewn gwasanaethau i blant ac oedolion yn golygu y gall y newid i fod yn oedolion arwain at golli gwasanaethau. Gyda hyn mewn golwg, nodir yn y Memorandwm bod y Bil yn gofyn am strategaeth awtistiaeth i ddiwallu anghenion gydol oes pobl yng Nghymru sydd ag ASD drwy wella'r ddarpariaeth o wasanaethau ar eu cyfer. Mae hefyd yn cynnwys gofyniad bod y strategaeth yn sicrhau parhad rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

4. Ymatebion i'r Bil

Mae barn gref ar ddwy ochr y ddadl ynghylch y Bil Awtistiaeth (Cymru).

Clywodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gan unigolion ag ASD a'u teuluoedd, ac elusennau sy'n eu cynrychioli fel NAS Cymru, ei bod yn aml yn anodd iawn cael mynediad at gymorth, gydag arosiadau hir am ddiagnosis, a bylchau clir yn y ddarpariaeth gwasanaeth, gan gynnwys cymorth cyflogaeth i oedolion ag ASD, yn enwedig y rhai ag IQ uchel a heb anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth fod y strategaethau awtistiaeth a'r ddeddfwriaeth gyfredol, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, wedi methu â chyflawni ar gyfer pobl ag ASD, a safbwyntiau na fydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu lefel y gwasanaethau cymorth rheng flaen sydd eu hangen ar frys.

Clywodd y Pwyllgor hefyd gan gynrychiolwyr Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Colegau Brenhinol gweithwyr iechyd proffesiynol, a Llywodraeth Cymru am eu pryderon bod y Bil yn cael ei 'arwain gan ddiagnosis' yn hytrach nag yn 'seiliedig ar anghenion', ac y gallai hynny arwain at flaenoriaethu diagnosis awtistiaeth dros gyflyrau a gwasanaethau eraill, a thrwy hynny gael effaith negyddol ar amodau niwro-ddatblygiadol eraill a phobl nad ydynt yn cyrraedd y trothwy diagnosis. Roedd rhai hefyd yn teimlo y dylid caniatáu amser i alluogi polisiâu a deddfwriaeth newydd i 'ymsefydlu', gan gynnwys Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig nad yw wedi cael ei gyflwyno ym mhob ardal eto, a Chod Ymarfer newydd Llywodraeth Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ddeddfwriaeth.

Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ar 25 Medi 2018 gan ddweud ei fod wedi cyhoeddi [Strategaeth Anhwyllderâu'r Sbectrwm Awtistig - diweddariad o'r Cynllun Cyflawni](#), gan adlewyrchu 'ymrwymadau newydd pwysig a fydd yn gwella gwasanaethau'.

Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar 30 Tachwedd 2018 ar **God Ymarfer newydd ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth**, a fydd yn gallu 'mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn y Bil ac a all fynd i'r afael â phryderon ychwanegol a godwyd gan randdeiliaid.

Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi ailddatgan ei hymrwymiad i wella bywydau pobl ag ASD drwy gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol diweddaraaf ar Anhwyllderâu'r Sbectrwm Awtistiaeth, gyda £13 miliwn o fuddsoddiad mewn gwasanaethau newydd (y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig). Barn Llywodraeth Cymru yw y bydd datblygiadau diweddar fel y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig newydd yn cyflawni'r gwelliannau gofynnol mewn amser.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod ganddi'r holl bwerau sydd eu hangen yn barod i gyflawni gwelliannau i wasanaethau awtistiaeth drwy ddeddfwriaeth gyfredol ar ffurf Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y bydd y Bil yn golygu y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio o wasanaethau eraill, gan greu anghydraddoldeb cymorth i unigolion eraill sydd ag anghenion cymorth sylweddol eraill, fel pobl ag anabledau dysgu neu namau synhwyraidd.

Dwy elfen allweddol o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno â nhw yw cyflwyno amser aros newydd ar gyfer asesiadau diagnostig a darpariaethau casglu data newydd.

Mae'r Bil yn mabwysiadu targed safon ansawdd NICE sy'n nodi na ddylai plant ac oedolion aros mwy na thri mis rhwng yr atgyfeiriad a'r apwyntiad diagnostig cyntaf. Dadl yr Aelod Cyfrifol a chefnogwyr y Bil yw bod hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod pobl yn cael asesiad diagnostig amserol, ac yn mynd i'r afael â mater oedi hir iawn ar hyn o bryd. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad i safon amser aros 26 wythnos rhwng atgyfeirio a'r asesiad cyntaf i blant yn ei Chynllun Gweithredu ar Awtistiaeth wedi ei ddiweddarau, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, ac ers hynny mae wedi ymrwymo i ymestyn y safon hon i oedolion. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r amser aros byrrach arfaethedig yn y Bil yn gorfodi gwasanaethau i ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig ar gyflawni dyletswyddau'r Bil; gan ysgogi rhagor o bobl drwy asesiad diagnostig ar draul darparu cymorth cyn-diagnosis ac ar ôl diagnosis.

Mae'r Bil yn cynnwys gofynion casglu data newydd ar gyfer cyrff iechyd, gyda chefnogwyr yn dadlau y bydd hyn yn helpu i fonitro effeithiolrwydd, a nodi a yw diagnosis yn cael ei wneud ar lefelau priodol. Nid yw Llywodraeth Cymru o blaid y darpariaethau, gan nodi bod lefel y data sy'n ofynnol yn y Bil yn 'feichus a dim ond yn ychwanegu ychydig iawn o wybodaeth berthnasol ychwanegol o ran cynllunio a chomisiynu'.

Barn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol bod yr anawsterau cyfredol y mae pobl sydd ag ASD a'u teuluoedd yn eu hwynebu'n gyson wrth geisio cael cymorth yn annerbyniol, a bod yn rhaid mynd i'r afael â nhw. Dywedodd aelodau fod y neges wedi cael ei chyfleu'n amlwg mewn tystiolaeth bod angen rhagor o wasanaethau cymorth ar frys i bobl ag ASD.

Nid yw'r Pwyllgor wedi gallu dod i gonsensws ynghylch ai'r ddeddfwriaeth hon, ar yr adeg benodol hon, yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r gwelliannau hyn, y mae eu hangen yn ddirfawr.

Mae rhai Aelodau'n cefnogi cyflwyno'r Bil hwn, gan gredu ei bod yn amserol ac yn angenrheidiol rhoi gwasanaethau ar sail statudol i gyflawni gwelliant lle mae strategaethau blaenorol wedi methu â gwneud hynny, a chyflawni'r newid sy'n ofynnol i bobl ag ASD a'u teuluoedd.

Mae Aelodau eraill o'r farn bod angen rhoi rhagor o amser i fentrau a deddfwriaeth bresennol gael effaith. Roedd rhai hefyd yn pryderu am ffocws y Bil (mae rhai o'r farn ei fod yn cael ei arwain gan ddiagnosis yn hytrach nag ar sail anghenion) a'r canlyniadau posibl ar gyfer pobl na fyddant yn cael diagnosis ASD, a/neu sydd â chyflyrau niwrolegol eraill.

Fodd bynnag, pwysleisiodd y Pwyllgor ei fod yn cytuno bod angen dirfawr am wella gwasanaethau cymorth ar gyfer pobl ag ASD a'u teuluoedd ledled Cymru, a'i fod o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o flaenoriaeth. Fe wnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru i'r perwyl hwn.